

Forward Programme Consultation
Corporate Communications
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA

10 Chwefror 2014

Annwyl Syr/Madam

Ymgynghoriad OFWAT: Blaenraglen Ofwat 2014-15

Diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y flaenraglen. Mae ein sylwadau yn adeiladu ar y cyfarfod a gafodd Emyr Roberts, Joanne Sherwood a minnau gyda Cathryn Ross a Claire Forbes ddiwedd mis Ionawr.

Roedd yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol i gael blas ar eich rhaglen arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod, sy'n cyd-daro ag ail flwyddyn weithredol Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy ddeall eich rhaglen waith, rydym yn gobeithio y gallwn ymgysylltu'n well â chi a chyfrannu at eich gwaith. Edrychwn ymlaen at feithrin perthynas waith mwy ffurfiol, gwaith a fyddai wedi'i gyflawni'n flaenorol yng Nghymru gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn yr un modd, efallai y bydd gennych ddi-ddordeb yn ein Cynllun Corfforaethol a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Rwy'n amgáu copi o'r ymgynghoriad er gwybodaeth, er bod y dyddiad cau wedi bod erbyn hyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein cynllun cyflawn ym mis Ebrill, a byddaf yn sicrhau eich bod yn derbyn copi.

Rydym yn croesawu'ch cynnig i ddatblygu strategaeth newydd ar reoleiddio'r sector dŵr dros yr hirdymor ac ar gyfer y cylch cynllunio nesaf. Hoffem gymryd rhan yn y gwaith hwn, gan gynnwys cyfrannu at unrhyw weithdai/digwyddiadau y byddech am eu cynnal yma yng Nghymru.

Rydym yn falch o weld eich bod yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r ddogfen. Mae angen rhagor o eglurder wrth sôn am 'the Government' yn y ddogfen, dylid nodi ai cyfeirio at lywodraeth y DU a/neu lywodraeth Cymru ydych chi: nid dyma'r achos bob amser. Er enghraifft, ar dudalen 15, ymddengys bod y term 'Government' yn cyfeirio at lywodraeth y DU yn unig ac nid Cymru. Wrth i'r agenda yng Nghymru ddatblygu, mae angen cydnabod y gwahaniaethau rhwng polisïau Cymru a Lloegr: bydd cynyddu'r cysylltiad rhwng ein sefydliadau yn sicrhau ein bod yn cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â Chymru. Yng nghyfarfod mis Ionawr, cytunwyd y byddai cyswllt tair-rhan rhyngom ni a Llywodraeth Cymru yn fan cychwyn da, ac felly rwyf eisoes wedi gofyn i'm staff drefnu hyn.

Mae Adolygiad Prisiau 2014 yn hollbwysig i Gymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn awyddus i weithio gyda Ofwat er mwyn deall y broses yn well, yn ogystal â manteision y gwaith hwn ym marn Ofwat. Mae hyn yn cynnwys darparu cyflenwadau diogel a chynaliadwy yn yr hirdymor, sicrhau cydbwysedd rhwng costau a'r amgylchedd a defnyddio adnoddau prin yn ofalus. Gobeithio y gallwn ni sicrhau hyn trwy gysylltu'n agosach â chi ar y gwaith hwn a thrwy gyfrannu at y gwersi a ddysgwyd o Adolygiad Prisiau 2014.

Yng Nghymru, rydym yn haeddiannol falch o'n hamgylchedd a sut mae'n hadnoddau naturiol o fudd i bobl Cymru ac eraill trwy ffactorau fel trosglwyddo dŵr. Mae'n galonid gweld eich bod yn cydnabod yr angen am fwy o opsiynau peirianeg 'gwyrdd', a'r pwyslais ar ddull integredig o reoli dalgylchoedd fel ffordd o gyfrannu at leihau pwysau yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn cyfrannu'n llawn at y drafodaeth hon ac yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'i dull gweithredu wrth gynllunio adnoddau naturiol a thaliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau. Rydym yn awyddus i siarad ag Ofwat wrth i hyn ddatblygu a dysgu o'ch arbenigedd ariannol a'ch profiadau chi wrth inni fynd ati i ddatblygu dull seiliedig ar daliadau yng Nghymru.

Tra rydym yn cefnogi cwmnïau dŵr i gyflenwi'r hyn mae cwsmeriaid am ei gael, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio hefyd ar effeithiau amgylcheddol y sector dŵr. Rydym eisiau sicrhau bod cwsmeriaid yn cael digon o wybodaeth fel eu bod yn llwyr ddeall y cysylltiad rhwng yr amgylchedd a'r gwasanaethau dŵr y maent yn eu derbyn. Credwn fod Grŵp Llais y Cwsmeriaid wedi helpu i ddangos y cysylltiadau hyn, a bod cwsmeriaid yn gwneud penderfyniadau gwybodus pan fo'r ffeithiau ganddynt. Byddem yn croesawu'r cyfle i ymchwilio ymhellach i'r cysylltiadau hyn er mwyn helpu i bennu costau amgylcheddol yn well.

Mae masnachu yn faes arall y mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr, trwy lai o bwysau ar ei hadnoddau dŵr. Er hyn, rydym yn cydnabod gwerth y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Alban a Lloegr. Byddem yn annog trafodaethau tebyg â Llywodraeth Cymru gan ein bod yn credu y byddai'r gwersi yn werthfawr iawn yma. Wrth gwrs, mae afonydd trawsffiniol Dyfrdwy, Hafren a Gwy hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â sut i reoli dalgylchoedd sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn deg. Hefyd, mae gennym ddiddordeb yn y modd mae'ch gwaith ar fanteision awgrymedig lleihau alldyniadau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, yn cyd-fynd â'r gwaith rydym ni'n ei wneud trwy gyfrwng ein Cyfarwydddebau (Cynefinoedd, Fframwaith Dŵr) a thrwy'n rhaglen hirsefydlog ar ddulliau cynaliadwy o dynnu dŵr.

Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd, ffoniwch Bob Vaughan ar 029 2046 6129 neu e-bostiwch robert.vaughan@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn gywir

Ceri Davies

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio